# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:30 - 15:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_03_10_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Gwyn R Price**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Paul Hollard, Rhaglen De Cymru**<br>**Dr Andrew Goodall, Rhaglen De Cymru**<br>**Hamish Laing, Rhaglen De Cymru**<br>**Yr Athro Peter Donnelly, Deoniaeth Cymru**<br>**Dr Helen Fardy, Deoniaeth Cymru**<br>**Dr Jeremy Gasson, Deoniaeth Cymru**<br>**Yr Athro Michael Harmer, Y Fforwm Clinigol Cenedlaethol** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)** |

Helen Finlayson (Ail Clerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Stephen Boyce (Ymchwilydd)

---

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams ar gyfer rhan gyntaf sesiwn y bore. Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar ar gyfer sesiwn y prynhawn.

## 2 Cynlluniau i Ad-drefnu Gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol - Cynllun De Cymru: Rhaglen De Cymru

2.1 Ymatebodd y cynrychiolwyr o Raglen De Cymru i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
2.2 Gofynnodd y Pwyllgor i Raglen De Cymru gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am y ffordd y mae pob bwrdd iechyd lleol unigol wedi asesu ac ystyried effaith ariannol cynlluniau ad-drefnu de Cymru.

## 3 Cynlluniau i Ad-drefnu Gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol - Cynllun De Cymru: Deoniaeth Cymru a'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol

3.1 Ymatebodd y cynrychiolwyr o Ddeoniaeth Cymru a'r Athro Harmer o'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu i Raglen De Cymru i ofyn a fyddai'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Fforwm Clinigol Cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad y Rhaglen yn cael ei rhyddhau'n gyhoeddus ar ôl i Fwrdd y Rhaglen gyfarfod ar 22 Hydref.
3.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am syniad o amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb yn ffurfiol i ganlyniad Adolygiad Greenaway, sy'n ystyried strwythur addysg a hyfforddiant meddygol ôl-radd, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd (The Shape of Training Review).

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

4.1 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
4a.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Trafodaeth ar y drefn o ystyried trafodion Cyfnod 2

6.1 Trafododd y Pwyllgor y drefn o ystyried trafodion ar gyfer Cyfnod 2, a chytuno arni mewn egwyddor.

## 7 Trafodaeth ar waith allgymorth ar yr ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru.

## 8 Paratoi ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2014-15

8.1 Er mwyn paratoi ar gyfer y broses o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15, cynhaliodd y Pwyllgor grŵp trafod gyda chynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid perthnasol.